## Nadolig Llawen!



Rydym wedi dathlu'r Nadolig mewn modd ychydig yn wahanol eleni ond ni wnaeth y cyfyngiadau hyn effeithio ar ein hwyl o gwbl. Yn ystod y tymor hwn mae'r adran Gelfyddydau Mynegiannol wedi bod yn cynnal ymarferion côr, dawns, actio a phartion llefaru amser cinio mewn swigod ac maent wedi cynhyrchu Gwasanaeth Nadolig rhithiol i rieni a'r cyhoedd. Diolch i'r holl ddisgyblion sydd wedi bod yn rhan o'r recordio ac i'r staff am ymuno yn y canu! Mae modd gweld y Gwasanaeth Nadolig yma. Dyma luniau o'r disgyblion yn mwynhau gwisgo siwmperi Nadolig a gwledda ar ginio Nadolig yn y ffreutur.















Neges gan Mr Edwards: Rydym wedi llwyddo i gydweithio fel un gymuned yn llwyddiannus ac yn sgil hyn sicrhau darpariaeth lawn i ddisgyblion Ysgol Garth Olwg mewn cyfnod gwbl ddigynsail. Gallwn fod yn falch iawn o'r ffaith ein bod wedi llwyddo i ddarparu ysgol hapus a diogel i'r disgyblion mewn cyfnod sydd wedi bod mor ansicr a phryderus iddynt. Nadolig Llawen iach a diogel i chwi oll fel teulu ac edrychwn ymlaen yn fawr at barhau i gydweithio fel un gymuned yn y flwyddyn newydd.





## Banc Bwyd

Diolch i'r staff am gyfrannu tuag at hamperi Nadolig y Banc Bwyd lleol. Llwyddwyd i greu 21 hamper Nadolig llawn ar gyfer teuluoedd yr ardal.



## Ysgol Isaf

Cafodd ddisgyblion yr Ysgol Isaf ddiwrnod sbardun cyffrous iawn yn cyflwyno'r thema "Golau, Camera, Drama", ac maen nhw wedi mwynhau dysgu am y thema'r tymor hwn. Diolch yn fawr i Sioned Geraint am drafod ei phrofiadau fel cyfarwyddwr a chynhyrchydd teledu gyda nhw. Bu'r plant hefyd yn brysur yn creu DVD fel eu sioe Nadolig.
























## Syniadau Mawr Cymru




Llongyfarchiadau i Sophie Plumley, Blwyddyn 10, ar ennill Her Haf Menter Teulu a gafodd ei redeg gan Syniadau Mawr Cymru. Ei syniad busnes hi oedd Llan Young Ladies sef clwb rhedeg i ferched yn eu harddegau. Fel rhan o'r clwb, trefnodd Sophie her y clo byr ac maen nhw hefyd mewn partneriaeth gydag aelod o Run Wales i gynnal digwyddiadau eraill. Roedd menter Sophie wedi creu argraff fawr ar y beirniaid. Cafodd Sophie wobr o £100 i roi i elusen a dewisodd hi Discombobulated Brain sef elusen sy'n helpu pobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl. Da iawn ti, Sophie!

## Aelod Seneddol y dyfodol?



Roedd yn bleser pur gweld ein Prif Ddisgybl, Efan Fairclough, yn cymryd yr awennau mewn ymgyrch i leihau gwastraff plastig yng Nghymru yn y Senedd. Rydym yn sicr bod dyfodol cynaliadwy ein gwlad yn ddiogel o dan arweiniad pobl ifanc fel Efan. Ti'n dod â chlod i'r ysgol, Efan.

## Wythnos ieithoedd Garth Olwg




Mae'n draddodiad bellach gennym ni yng Ngarth Olwg i ddathlu'r ieithoedd yr ydym yn eu siarad yn yr ysgol. Felly, ym mis Hydref cawsom wythnos o ddathliadau hwyl ac addysgiadol. Dydd Llun oedd ein cyfle i ddathlu Sbaen a diwylliant Sbaeneg. Roedd cystadleuaeth creu mwgwd *el día de los muertos*. Isla Powell ac Alice Hanks-Doyle oedd enillwyr y gystadleuaeth gyda mygydau arbennig. ¡Estupendo chicas! Ddydd Mawrth cawsom gyfle i ddathlu llenyddiaeth Saesneg gan ffocysu'n benodol ar Shakespeare. Roedd yr adran Saesneg hefyd wedi cyhoeddi enillwyr cystadleuaeth farddoniaeth yr Ysgol Ganol. Ddydd Mercher roeddem yn dathlu Mandarin a diwylliant Tsieineaidd. Roedd bwyd arbennig i'w gael yn y ffreutur ac roedd y disgyblion wedi dysgu sut i gyfri i ddeg ym Mandarin. Braf oedd clywed y Gymraeg yn canu lawr y coridorau ar y dydd Iau er mwyn dathlu diwrnod Shwmae Su'mae. Roedd gan bob athro gwestiwn ac roedd y disgyblion wir wedi mwynhau holi'r athrawon. Roedd fideo arbennig hefyd wedi'i greu gan yr adran Gymraeg. Gorffennwyd yr wythnos gyda diwrnod Ffrangeg – roedd y disgyblion wrth eu boddau yn gwrando ar ganeuon Ffrengig yn ystod cyfnod cofrestru a gwerthfawrogi diwylliant Ffrangeg. 'Dyn ni'n edrych ymlaen at wythnos ieithoedd 2021 yn barod!

## Y Dail

Mae wedi bod yn wych clywed cân newydd Y Dail, sef prosiect cerddorol Huw Griffiths, Blwyddyn 13 yn cael ei chwarae ar Radio Cymru yn ddiweddar. Mae'r gân wedi cael tipyn o sylw yn y cyfryngau ac rydym yn edrych ymlaen at dy glywed yn canu ym Maes B yn y dyfodol gobeithio, Huw! Gwrandewch ar y gân yma.





## Cystadleuaeth Young Writers

Llongyfarchiadau i bob un oedd wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth 'Young Writers' yn ddiweddar. Y thema'r tymor hwn oedd 'Trapped' ac roedd rhaid i'r disgyblion ysgrifennu stori fer. Cafodd gwaith caled y disgyblion ei wobrwyo gyda 170 o'r straeon byrion yn cael eu dewis i gael eu cyhoeddi yn yr antholeg. Mae hyn yn llwyddiant anhygoel sydd yn dangos eu gwaith caled a brwdfrydedd. Llongyfarchiadau i bawb!

## Prif Swyddogion

Llongyfarchiadau i'n prif swyddogion am eleni sef Efan Fairclough a Brengain Rhys, a'r dirprwyon sef Brianne Jones a Gruff Roberts. Da iawn chi.

## Cynllun Ysgolheigion Blwyddyn 9 a 10



Mae rhai o ddisgyblion Blwyddyn 9 a 10 wedi derbyn canmoliaeth uchel am eu hymrwymiad i'r cynllun ysgolheigion a ddarperir gan "The Brilliant Club". Mae Blwyddyn 9 yn dilyn cwrs o'r enw "Disease Detectives" ac maent yn dysgu am glefydau heintus a rôl pathogenau yn eu gwasgaru. "Representation or Reality? A Circus Study" yw testun Blwyddyn 10 sy'n defnyddio egwyddorion "Critical Discourse Analysis" fel dull o ddarganfod effeithiau cudd iaith gyffredin. Mae'r ddau grŵp eisioes wedi cyflwyno ar lafar i'r tiwtoriaid ac wedi elwa'n fawr o'r broses. Dymuniadau gorau iddynt yn cwblhau eu haseiniadau dros yr wythnosau nesaf.

## Global Social Leaders Catalyst



Cwrs sydd yn ceisio meithrin arweinwyr ifanc a'u hannog i weithredu yn y gymdeithas a datblygu ymwybyddiaeth gymdeithasol ydy 'Global Social Leaders Catalyst'. Eleni cynhaliwyd y cwrs am ddim i bobl ifanc yn y Deyrnas Unedig, ar-lein trwy gyfrwng zoom. Yn ystod ail wythnos mis Awst cefais gyfle i fynychu amrywiaeth o gyflwyniadau a gweithdai. Dau gwestiwn oedd yn codi yn aml yn y gweithdai oedd 'Beth sy'n gwneud arweinydd da?' a 'Sut gall pobl ifanc weithredu er mwyn gwella'r gymdeithas?'

Am dair awr bob bore byddem yn cwrdd ac yn clywed gan arweinwyr cwmniau, aelodau o'r BBC ac ymgyrchwyr elusennol nodedig; fy hoff siaradwr oedd Amrit Kaur oedd yn trafod pwysigrwydd caneuon protest. Dysgais amryw o sgiliau newydd, gan gynnwys pwysigrwydd cyfathrebu clir wrth ymgyrchu a sut y gall pobl ifanc weithredu er mwyn gwireddu 20 Nod Datblygiad Cynaliadwy Byd-Eang y Cenhedloedd Unedig. Y pwyslais bob tro oedd ein hannog ni fel pobl ifanc i gynllunio a gweithredu yn ein hardal leol er mwyn gwella bywydau pobl yn y gymdeithas. Mwynheais y cwrs, a dysgais lawer o sgiliau gwerthfawr a defnyddiol y gallaf ddefnyddio yn fy mywyd pob dydd. Gan Catrin England, Blwyddyn 10.

## Ysgolion Haf



Ym mis Chwefror, ces i fy newis i astudio seicoleg yng nghwrs haf Harvard a feiroleg yng nghwrs haf Chicago. Yn anffodus, o ganlyniad i'r feirws, doeddwn i ddim yn gallu teithio i'r Unol Daleithiau am fis i gyflawni fy astudiaethau. Yn lle, fe wnes i gyflawni'r cwrs dros zoom yn fy ystafell wely. Er, wrth gwrs, byddwn i wedi hoffi mynd i'r Unol Daleithiau i astudio, fe wnes i dal gael profiad arbennig. Cwrddais â phobl o bedwar ban y byd a dysgais nifer o sgiliau fydd yn fy helpu yn y dyfodol. Rydw i dal mewn cysylltiad â nifer dros gyfryngau cymdeithasol a gobeithio bydda i'n cael y cyfle i gwrdd â nhw mewn person rhyw ddydd. Mwynheais yr awyrgylch o ddysgu yn y ddwy brifysgol. Roedd hwn yn gyfle gwych a bythgofiadwy. Rydw i'n gobeithio y bydd mwy o bobl ifanc o Rondda Cynon Taf yn ymgeisio blwyddyn nesaf i wneud cyrsiau haf yn yr Unol Daleithiau. Gan Efan Fairclough, Blwyddyn 13.



Ymgeisiodd Brianne Jones, Blwyddyn 13 am Leoliad Ymchwil gyda Sefydliad Nuffield dros yr haf. Llwyddodd i gael lleoliad gydag Academi Ffotoneg Cymru ym Mhrifysgol Bangor. Cydweithiodd Brianne gydag arbenigwyr yn y maes am 7 wythnos er mwyn dysgu ffotoneg ar lefel graddedigion. Dysgodd am yr ymchwil arloesol sy'n cael ei gynnal ym maes meddygaeth ar hyn o bryd. Enillodd hi wobr Nuffield am ei dyfeisiad ar gyfer defnydd llinol ffilterau polaru er mwyn cynorthwyo bywyd dioddefwr Parkinson's. Roedd wedi llwyddo i greu cynorthwyydd bwyta ar ei phen ei hun er mwyn galluogi cleifion i gael mwy o annibyniaeth. Yn ogystal â hyn, ysgrifennodd bapur ymchwil wyddonol gan gyflwyno'i holl waith ymchwil i grŵp o ysgolheigion a chafodd ei chymeradwyo ar ei gwaith trylwyr a da. Da iawn ti Brianne!



Dros yr haf, cafodd Emily ei dewis i fynychu ysgol haf Caergrawnt er mwyn astudio'r gwyddorau ymddygiadol a seicolegol am wythnos. Fel rhan o'r ysgol haf, roedd angen iddi ddarllen erthyglau a'u trafod dros zoom gyda darlithwyr o Gaergrawnt. Yn ogystal â hyn, roedd angen iddi wylio darlithoedd gan gyflawni aseiniaid yn seiliedig ar y gwaith yr oedd wedi'i gyflawni. Treuliodd hi 6 awr bob dydd yn cyflawni gwaith israddedig gan gael blas a phrofiad o astudio'r gwyddorau ymddygiadol a seicolegol ym Mhrifysgol Caergrawnt. Yn dilyn yr Ysgol haf mae wedi cael ei hysbrydoli i ymgeisio am gwrs tebyg yn y brifysgol ar ôl gadael yr Ysgol Hŷn oherwydd bod y cwrs yn amrywiol ac yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth ddiddorol.

## Llwyddiant pêl-droed i Eliza



Llongyfarchiadau i Eliza Collie, Blwyddyn 11 sydd wedi cael ei dewis i chwarae dros dîm pêl-droed cyntaf menywod Caerdydd fel ymosodwraig. Mae'n ymarfer yn galed gyda nhw ar nosweithiau Mercher a Gwener. Yng ngêm gyntaf cyfeillgar y tymor llwyddodd y tîm i guro Glan y Fferi 4-0. Mae'r tymor yn dechrau ddiwedd mis Medi ac mae Eliza yn gyffrous iawn i chwarae dros y tîm eleni.

## Diwrnod gwisgo melyn



Ymunodd y disgyblion yn yr ymgyrch gendlaethol i wisgo melyn ym mis Hydref i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl.



## Gŵyl Gerallt

Cafodd Huw Griffiths, Blwyddyn 13 ei ddewis i fod yn rhan o ddathliad coffa Iwan Llwyd a oedd wedi'i drefnu gan Barddas. Bu'n trafod cerddi Iwan Llwyd gyda'r Prifardd Aneirin Karadog ac roedd sylwadau treiddgar iawn gan Huw ar gerddi Iwan Llwyd. Mae modd gwylio'r drafodaeth yma.




## Gweithdy Mei Gwynedd



Ar Ragfyr yr 8fed daeth criw o ddisgyblion TGAU Cerddoriaeth ynghyd i dderbyn gweithdy cyfansoddi gan Mei Gwynedd. Bydd y disgyblion yn cyd-weithio'n agos gyda'r cerddor er mwyn cyfansoddi cân ar gyfer Parti Ponty 2021. Roedd y syniadau'n llifo a'r disgyblion wedi mwynhau a gwerthfawrogi'r profiad.

